

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
Cymru CF10 1AT

Ffôn: 029 2087 8000
Ffacs: 029 2087 8001
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff
Wales CF10 1AT

Tel: 029 2087 8000
Fax: 029 2087 8001
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

Partneriaethau a'r
Iaith Gymraeg

Partnerships and the
Welsh Language

Cyngor o dan adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg
1993 ar gyfer sefydliadau llywodraeth leol

Advice under section 3 Welsh Language Act
1993 for local government organisations

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
Cymru CF10 1AT

Ffôn: 029 2087 8000
Ffacs: 029 2087 8001
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff
Wales CF10 1AT

Tel: 029 2087 8000
Fax: 029 2087 8001
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

Partneriaethau a'r
Iaith Gymraeg

Partnerships and the
Welsh Language

Cyngor o dan adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg
1993 ar gyfer sefydliadau llywodraeth leol

Advice under section 3 Welsh Language Act
1993 for local government organisations

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



Cynnwys

Defnyddio'r Canllaw	1
Pam fod angen ystyried y Gymraeg mewn partneriaethau?	3
Pa ffactorau sydd angen eu hystyried?	7
Sut mae gweithredu?	9
Pa gymorth sydd ar gael?	13

1. Defnyddio'r Canllaw

Bwriad y canllaw yw rhoi cyngor ynglŷn ag ystyried y Gymraeg wrth weithio mewn partneriaeth a hynny er mwyn sicrhau bod:

- llais priodol i'r Gymraeg yng ngwaith partneriaethau; a bod
- gwasanaethau i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg.

Argymhellwn fod y canllaw yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio pan fo'n briodol gan y canlynol:

- ✓ Partneriaethau unigol
- ✓ Sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth
- ✓ Swyddogion neu unigolion sy'n mynychu partneriaethau

Contents

Using the Guidance	2
Why is there a need to consider the Welsh language in partnerships?	4
What factors need to be considered?	8
How to proceed?	10
What help is available?	14

1. Using the Guidance

This guidance is intended to provide advice on how to consider the Welsh language whilst working in partnership in order to ensure that:

- the Welsh language has an appropriate voice in the work of partnerships; and that
- public services are available in Welsh.

We recommend that the guidance is considered and used where appropriate by the following:

- ✓ Individual partnerships
- ✓ Organisations that work in partnerships
- ✓ Officers and individuals who attend partnerships

2. Pam fod angen ystyried y Gymraeg mewn partneriaethau?

Dylanwad Partneriaethau

Mae partneriaethau (ffurfiol ac anffurfiol) rhwng y sector gyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yn tyfu mewn pwysigrwydd. Fel rhan o agenda foderneiddio'r Llywodraeth, ceir tueddiad cynyddol i weithio mewn partneriaeth gan dorri ar draws ffiniau sefydliadol traddodiadol.

Dengys astudiaeth gan Brifysgol Caerdydd (2003) bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn ymwneud â hyd at 92 o bartneriaethau lleol a bod 12 partneriaeth statudol 3 sector (cyhoeddus, preifat a gwirfoddol) yn weithredol ymhob sir.

Mae'r partneriaethau hyn yn aml yn gweithio mewn meysydd sy'n hanfodol bwysig i ddyfodol y Gymraeg ac mae gan rai ohonynt gyfrifoldebau cyllidol a strategol allai ddylanwadu ar les y Gymraeg.

Cydymffurfio ac Atebolrwydd

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg (1993), mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun iaith statudol, yn nodi sut byddant yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal.

Mae llawer o sefydliadau wedi cynnwys cymalau am weithio mewn partneriaeth yn eu cynlluniau iaith a dylai swyddogion sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â'r cymalau hynny wrth ymwneud â phartneriaethau. (Gweler Blwch 1)

Mae gan lawer o sefydliadau gwirfoddol a phreifat hefyd draddodiad hir o gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg ac mae nifer cynyddol ohonynt yn gweithio gyda'r Bwrdd ac eraill ar ddatblygu gwasanaethau Cymraeg. Mae rhai sefydliadau gwirfoddol wedi mynd ati i ddatblygu cynlluniau iaith hefyd ac erbyn Awst 2006, roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo 47 cynllun iaith yn y sector gwirfoddol.

2. Why is there a need to consider the Welsh language in partnerships?

The Influence of Partnerships

Partnerships (formal and informal) between the public, voluntary and private sectors are growing in importance. As part of the Government's modernisation agenda, there is an increasing tendency to work in partnership across traditional institutional boundaries.

A study by Cardiff University (2003) shows that local authorities in Wales are involved in up to 92 local partnerships and that there are 12 statutory three sector partnerships (public, private and voluntary) in operation in every county.

These partnerships often work in fields which are vital to the future of the Welsh language and some have budgetary and strategic responsibilities which could have an influence on the wellbeing of the Welsh language.

Compliance and Accountability

Under the Welsh Language Act (1993), it is mandatory for public bodies that provide services for the public in Wales, to prepare a statutory language scheme identifying how they will treat the Welsh and English language on the basis of equality.

Many organisations have included clauses for working in partnership in their language schemes and officers should ensure that they act in accordance with those clauses when dealing with partnerships. (See Box 1)

Many voluntary and private organisations also have a long tradition of supporting and promoting the Welsh language and an increasing number of them are working with the Board and others in developing their Welsh language services. Some voluntary organisations have also proceeded to develop language schemes and by August 2006, the Board had approved 47 language schemes in the voluntary sector.

Bydd gan rhai partneriaethau ffurfiol ddyletswydd i weithredu mesurau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg neu ddyletswydd i sicrhau mewnbwn am y Gymraeg. Er enghraifft, argymhellodd y Llywodraeth dylai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc gynnwys cynrychiolydd o fudiadau Cymraeg, megis Menter Iaith, yr Urdd, neu grŵp cymunedol¹.

Blwch 1 – cymal safonol ar bartneriaethau mewn cynlluniau iaith

“Mae'r [sefydliad] yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector wirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'r [sefydliad] yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:

- i) Pan fo'r [sefydliad] yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith.
- ii) Pan fo'r [sefydliad] yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei arwain, bydd mewnbwn y [sefydliad] i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd y [sefydliad] yn annog y partïon eraill i gydymffurfio.
- iii) Pan fo'r [sefydliad] yn gweithredu fel rhan o gonsortia, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortia bydd y [sefydliad] yn gweithredu'n unol â'u Cynllun Iaith. Pan fo'r [sefydliad] yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisiâu iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y [sefydliad] yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.w

Bydd y [sefydliad] yn paratoi canllaw i swyddogion sy'n ymuno mewn partneriaeth yn egluro cyfrifoldebau'r [sefydliad] yn unol â'r Cynllun Iaith ac yn dweud sut y dylai swyddog fynd ati i briodoli gofynion y cynllun iaith i waith y bartneriaeth.”

¹ Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, daeth i rym ar 1 Medi 2006)

Some formal partnerships will have a duty to implement specific measures involving the Welsh language or a duty to ensure input regarding the Welsh language. For example, the Government has recommended that Children and Young People's Partnerships should include a representative from Welsh language organisations, such as Mentrau Iaith, the Urdd or a community group¹.

Box 1 – a standard clause on partnerships in Welsh language schemes

“The [organisation] works in partnership with public bodies, organisations from the voluntary sector and other agencies. The [organisation] works on many levels when working with others:

- i) When the [organisation] is the strategic and financial leader within a partnership, it will ensure that the public service provision is compliant with the Welsh Language Scheme.
- ii) When the [organisation] joins a partnership in which another body is leading, the [organisation's] input to the partnership will comply with the Welsh Language Scheme and the [organisation] will encourage other parties to comply.
- iii) When the [organisation] is a partner in a consortium, it will encourage the consortium to adopt a bilingual policy. When acting publicly in the name of the consortium, the [organisation] will act in accordance with its Welsh Language Scheme.

When the [organisation] joins or forms a partnership, it will ask prospective partners about their Welsh Language Schemes, language policies or the means by which they will operate bilingually. Within any partnership, the [organisation] will offer advice and support to the other partner organisations.

The [organisation] will prepare guidance for officers who are involved in partnership working, outlining the [organisation's] responsibilities in accordance with the language scheme and stating how officers should apply the requirements of the language scheme to the partnership's work.”

¹ Stronger Partnerships for Better Outcomes (Welsh Assembly Government, came into force on 1 September 2006)

3. Pa ffactorau sydd angen eu hystyried?

Mae'r rhestr isod yn cynnig ffactorau ieithyddol i'w hystyried wrth weithredu mewn partneriaeth. Mae perthnasedd y penawdau unigol a'r cwestiynau dilynol yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, gan gynnwys natur y gweithgaredd, dylanwad a statws y bartneriaeth ac ardal ofodol y bartneriaeth. **Bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu rhai o'r camau isod yn unol â'u cynllun iaith Gymraeg statudol.** Hyd yn oed mewn amgylchiadau lle nad oes gorfodaeth anogwn bartneriaethau i weithredu yn unol ag ysbryd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 er mwyn sicrhau gwasanaeth cyfartal i siaradwyr Cymraeg a chyfrannu tuag at ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg.

- **Delio â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith** - a fydd y bartneriaeth yn gallu sicrhau gwasanaeth yn Gymraeg i'r cyhoedd? A fydd gwasanaeth Cymraeg ar gael wrth i'r bartneriaeth ohebu drwy lythyr; gyfathrebu dros y ffôn; gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, neu gynnal cyfarfodydd eraill?
- **Wyneb cyhoeddus y bartneriaeth** - a fydd cyhoeddiadau; ffurflenni; hysbysebion; arwyddion; neu unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd arall yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg?
- **Gweinyddu mewnol** - a fydd trefniadau mewnol y bartneriaeth yn hwyluso darparu gwasanaeth Cymraeg? Er enghraifft, a oes angen staff, cydlynwyr neu gadeirydd dwyieithog? A oes angen cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i gydlynwyr/aelodau? A fydd unrhyw drefniadau trydydd parti yn cydymffurfio gydag amcanion ieithyddol y bartneriaeth? A oes trefniadau cyfieithu priodol mewn lle?

3. What factors need to be considered?

The list below offers linguistic factors which should be considered in partnership working. The relevance of the individual headings and resulting questions is dependent upon a number of factors, including the nature of the activity, the influence and status of the partnership and the partnership's spacial area. **It will be necessary for public bodies to implement some of the actions below in accordance with their statutory Welsh language scheme.** Even in circumstances where there is no enforcement we encourage partnerships to act in accordance with the spirit of the Welsh Language Act 1993 in order to ensure an equal service for Welsh speakers and contribute towards efforts to promote the Welsh language.

- **Dealing with the Welsh-speaking public** - will the partnership be able to ensure a Welsh language service for the public? Will the Welsh language service be available when corresponding by letter; communicating by telephone; holding public meetings, or holding other meetings?
- **The public face of the partnership** - will publications; forms; advertisements; signs; or any other publicity material be produced in Welsh?
- **Internal administration** - will the partnership's internal arrangements facilitate the provision of a Welsh language service? For example, will staff, co-ordinators or a chairperson with skills in Welsh be required? Is it necessary to offer Welsh language training to co-ordinators/members? Will any third party arrangements comply with the partnership's linguistic objectives? Are there appropriate translation arrangements in place?

- **Aelodaeth** – oes angen i'r bartneriaeth sicrhau aelodaeth o fudiadau cynllunio ieithyddol, neu gael mynediad i arbenigwyr yn y Gymraeg? Oes angen sicrhau bod cyfran o'r aelodau yn gallu siarad Cymraeg? A yw sgiliau ieithyddol y bartneriaeth yn adlewyrchu'r gymuned a gynrychiolir?
- **Hyrwyddo** - a yw'r bartneriaeth yn manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg? A fydd gwaith y bartneriaeth yn darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Os yw'r bartneriaeth yn weithgar yn y gymuned, a yw'n cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg? A fydd y bartneriaeth yn cyfrannu tuag at, neu'n cefnogi gweithgareddau eraill yn y maes iaith - gwaith y Fenter Iaith; yr Urdd ayyb?
- **Ymgynghori** – oes angen targedu mudiadau Cymraeg yn benodol wrth ymgynghori? A yw'r sefydliadau cynllunio ieithyddol priodol ar y rhestr ymgynghori? Sut fydd y bartneriaeth yn sicrhau bod y wybodaeth briodol am y Gymraeg ar gael?

Dylai'r bartneriaeth ystyried y pwyntiau uchod yn gyson wrth gynllunio, datblygu a monitro ei rhaglen waith.

4. Sut mae gweithredu?

Mae'r rhestr isod yn cynnig **tasgau ymarferol** gellid eu cyflawni er mwyn sicrhau ystyriaeth briodol i'r Gymraeg ac er mwyn ymateb yn gadarnhaol i'r ffactorau yn adran 3.

- ✓ Cynnwys **eitem ar agenda** cyfarfod o'r bartneriaeth (y cyfarfod cyntaf os yn bosibl) i drafod y Gymraeg, gyda'r bwriad o ddod i benderfyniad clir er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurdeb.

- **Membership** - does the partnership need to ensure membership from language planning agencies, or access to specialists in the Welsh language? Is it necessary to ensure that a proportion of the members are able to speak Welsh? Do the partnership's linguistic skills reflect the community represented?
- **Promotion** - does the partnership take advantage of opportunities to promote the Welsh language? Will the partnership's work provide opportunities for people to use the Welsh language? If the partnership is active in the community, does it contribute to Welsh-medium social activities? Will the partnership contribute towards, or support other activities concerning the language - the work of the Mentrau Iaith; the Urdd etc?
- **Consultation** - is there a need to target Welsh language agencies specifically in consultation? Are the relevant language planning organisations on the consultation list? How will the partnership ensure that the relevant information regarding the Welsh language is available?

The partnership should consider the issues above regularly in planning, developing and monitoring its work programme.

4. How to proceed?

The list below proposes **practical tasks** that could be implemented to ensure that appropriate consideration is given to the Welsh language and in order to respond positively to the issues proposed in section 3.

- ✓ Include an **item on the agenda** of a meeting of the partnership (the first meeting if possible) to discuss the Welsh language, with the intention of coming to a clear decision in order to ensure consistency and clarity.

- ✓ Cynnwys **datganiad o egwyddor** am y Gymraeg yng nghylch gorchwyl neu yng nghyfansoddiad y bartneriaeth a sicrhau bod pob aelod o'r bartneriaeth yn ymrwymo iddo.
- ✓ Gosod **mannau rheoli** amlwg er mwyn sicrhau bod eglurdeb ynglŷn â rolau swyddogion / unigolion ar y bartneriaeth o safbwynt iaith.
- ✓ **Adnoddau a chyfieithu** – clustnodi adnoddau i alluogi'r bartneriaeth weithredu'n ddwyieithog. Ystyried yr angen i sicrhau adnoddau cyfieithu tu hwnt i'r agweddau sy'n ymwneud â'r cyhoedd, fel bod modd i aelodau siarad Cymraeg yn y cyfarfodydd a derbyn papurau cyfarfod yn Gymraeg.
- ✓ **Cynrychiolaeth** – sicrhau bod lladmerydd dros yr iaith neu arbenigwyr iaith ynghyd â siaradwyr Cymraeg yn aelodau o'r bartneriaeth.
- ✓ **Trydydd parti** - sicrhau bod gofynion ieithyddol penodol yn rhan o gytundeb gyda chwmni neu fudiad trydydd parti. Gall hyn fod yn berthnasol wrth gomisiynu cwmni ymgynghori er enghraifft, neu wrth weinyddu cynllun grant.
- ✓ **Targedau** – ystyried yr angen i gynnwys tasgau neu dargedau penodol ar y Gymraeg fel rhan o waith y bartneriaeth.
- ✓ **Monitro** – ystyried yr angen i gynnwys dangosydd(ion) ar y Gymraeg i fesur cyflawniad a chynnwys ystyriaeth am y Gymraeg mewn unrhyw werthusiad monitro os yn berthnasol.
- ✓ **Rhannu arfer da** a dysgu gan eraill - cyfathrebu gyda budd-ddeiliaid lleol a gyda phartneriaethau eraill yn yr ardal, neu gyda phartneriaethau eraill tebyg mewn ardaloedd gwahanol.
- ✓ **Ymgynghori** gyda'r sefydliadau priodol pan fo angen cyngor arbenigol yn ymwneud â'r Gymraeg.

- ✓ Include a **declaration of principle** about the Welsh language in the terms of reference or constitution of the partnership and ensure that all members of the partnership commit to it.
- ✓ Set up clear **control points** in order to ensure that there is clarity about the roles of officers / individuals within the partnership in relation to language.
- ✓ **Resources and translation** - allocate resources to enable the partnership to operate bilingually. Consider the need to provide translation resources beyond the aspects which involve the public, so that it is possible for members to speak Welsh in meetings and receive papers in Welsh.
- ✓ **Representation** - ensure that advocates for the language or a language specialist as well as Welsh speakers are members of the partnership.
- ✓ **Third party** - ensure that specific linguistic requirements are part of an agreement with a third party agency. This may be relevant for example when commissioning consultants, or when administering a grant scheme.
- ✓ **Targets** - consider the need to include tasks or specific targets on the Welsh language as part of the partnership's work.
- ✓ **Monitoring** - consider the need to include an indicator(s) regarding the Welsh language in order to measure achievement and also consider the Welsh language in any monitoring evaluation if applicable.
- ✓ **Sharing good practice** and learning from others - communicate with local stakeholders and other partnerships in the area, or with other similar partnerships in other areas.
- ✓ **Consult** with relevant organisations when specialist advice on the Welsh language is required.

ac yn olaf

- ✓ **Blaenoriaethu a phroffilio** - ni fydd pob partneriaeth yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol tuag at y Gymraeg. Serch hynny, os yw partneriaeth yn darparu gwasanaeth mae'n bwysig cwrdd â dyheadau'r cyhoedd, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. O ganlyniad anogwn bartneriaethau i seilio eu gwaith ar broffil ieithyddol ffeithiol ac anogwn sefydliadau i flaenoriaethu eu partneriaethau er mwyn sicrhau bod y rhai mwyaf dylanwadol o safbwynt y Gymraeg yn gwneud y cyfraniad ieithyddol priodol.

5. Pa gymorth sydd ar gael?

Os ydych eisiau cyngor pellach, awgrymwn eich bod yn cysylltu gydag un neu fwy o'r sefydliadau/unigolion isod:

- **Swyddog iaith y sefydliad** – os ydych yn gweithio i gorff cyhoeddus bydd eich sefydliad yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg a bydd swyddog penodol yn gyfrifol am weithredu'r cynllun hwnnw.
- **Bwrdd yr Iaith Gymraeg** – gallwch gysylltu gyda'r swyddogion priodol yn y Bwrdd ar:

02920 878000
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
- **Mentrau iaith** - Gall y fenter iaith leol ddarparu gwybodaeth i'r bartneriaeth ar:
✓ y proffil ieithyddol yn lleol
✓ cysylltiadau lleol – o ran unigolion a sefydliadau Cymraeg a dwyieithog
✓ gweithgareddau a chynlluniau yn ymwneud â'r Gymraeg ar lefel lleol
Mae manylion cyswllt ar gael ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg:
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

and finally

- ✓ **Prioritising and profiling** – not every partnership will be able to make a significant contribution toward the Welsh language. If a partnership provides a service however it's important that it meets the aspirations of the public, including Welsh speakers. As a result, we encourage partnerships to use a language profile in their work and we also encourage organisations to prioritise partnerships so that the most influential make an appropriate contribution toward the language.

5. What help is available?

If you would like further advice, we suggest that you contact one or more of the organisations/individuals below:

- **The organisation's language officer** - if you work for a public body your organisation has a Welsh Language Scheme and a specific officer will be responsible for the implementation of the scheme.
- **Welsh Language Board** – You can contact relevant officers at the Board on:

02920 878000
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
- **Mentrau iaith** - The local mentor iaith initiative can provide information to the partnership about:
✓ the language profile locally
✓ local contacts - with regard to individuals and Welsh and bilingual organisations
✓ activities and schemes involving the Welsh language on a local level
Contact details are available on the Welsh Language Board's website:
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk